

Rhif: WG31966



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Mynediad Awdurdod Cyllid Cymru at bwerau troseddol er mwyn mynd i'r afael â throseddau trethi datganoledig

Dyddiad cyhoeddi: 10 Gorffennaf 2017

Cam gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 02 Hydref 2017

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg	<p>O fis Ebrill 2018 ymlaen, Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fydd yn gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar bwerau ymchwilio troseddol cymesur er mwyn i ACC fynd i'r afael â throseddau trethi datganoledig a'u hatal.</p>
Sut mae ymateb	<p>Bydd y cyfnod ymgynghori yn cychwyn ar 10 Gorffennaf 2017 ac yn dod i ben ar 2 Hydref 2017. Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd ni cyn y dyddiad cau gofynnol.</p> <p>I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gallwch naill ai lenwi'r holiadur ar waelod y ddogfen, yna ei e-bostio neu ei bostio i'r cyfeiriad a ddarparwyd; neu ei lenwi gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein.</p>
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	<p>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</p> <p>Cynhwyswch gyfeiriadau at y rhyngwrwyd neu at ddogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'r rhai yr ymgynghorir â nhw, e.e. cyfeiriad y tudalennau ymgynghori ar y we, neu atodiad manwl i'r ymgynghoriad.</p>
Manylion cyswllt	<p>I gael rhagor o wybodaeth:</p> <p>Trysorlys Cymru, Polisi Treth, Ymgysylltu a Strategaeth, Llywodraeth Cymru Parc Cathays Piler H08 Craidd Dwyreiniol Caerdydd CF10 3NQ</p> <p>FinancialReformMailbox@Wales.GSI.Gov.UK</p>

Diogelu data

Sut byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'r manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

1	Rhagair y Gweinidog.....	5
2	Cyflwyniad.....	7
3	Pwerau troseddol i ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig	9
4	Manylion y pwerau troseddol	16
	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984	16
	Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (CJPA)	17
	Casgliad.....	18
	Deddf Enillion Troseddau 2002 ("POCA")	25
	Casgliad.....	27
	Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.....	30
	Casgliad.....	31
5	Mesurau Diogelu a Llywodraethu	34
6	Atodiad A	38

1 Rhagair y Gweinidog

1.1 O Ebrill 2018 ymlaen, Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fydd yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir, gan ddisodli treth dirlenwi a threth dir y dreth stamp y DU, a gesglir ar hyn o bryd gan Gyllid a Thollau EM. Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethu (Cymru) 2016 yn darparu fframwaith i ACC ar gyfer casglu'r trethi hyn.



1.2 Mae'n hanfodol bod trethi'n cael eu casglu'n effeithiol er mwyn ariannu'r gwasanaethau cyhoeddus yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Er mwyn diogelu'r gwasanaethau gwerthfawr hyn, mae'n bwysig bod gennym ni system dreth sy'n deg - gan ei gwneud yn hawdd i ddinasyddion dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg iawn, wrth fynd i'r afael â'r rhai sy'n ceisio efnadu talu trethi a'u rhwystro.

1.3 Yn yr ymgynghoriad hwn rwy'n nodi fy nghynigion ar gyfer sicrhau bod gan ACC bwerau i ymchwilio i droseddau cymesur ar waith er mwyn mynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â threthi datganoledig a'u rhwystro. Ni ddylai'r un llywodraeth ddeddfu i ddarparu awdurdod cyhoeddus gyda phwerau troseddol oni bai fod hynny'n angenrheidiol. Ar hyn o bryd, mae Cyllid a Thollau EM yn defnyddio pwerau troseddol yng Nghymru i rwystro a mynd i'r afael â throseddau treth mewn perthynas â'r trethi sy'n cyfateb, (treth dirlenwi a threth dir y dreth stamp) ac mae ganddynt fesurau diogelu sydd wedi'u diffinio'n glir er mwyn sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu defnyddio yn gymesur ac yn briodol. Rwyf o'r farn na ddylai ACC fod yn wahanol yn y cyswllt hwn.

1.4 Fodd bynnag, mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn cydnabod na fydd gan ACC yr un ystod o gyfrifoldebau o ran trethi â'r rhai a gyflawnir gan Gyllid a Thollau EM. Felly, mae'r ymgynghoriad yn graddnodi'r pwerau arfaethedig i ACC yn ofalus, ac yn awgrymu cyfres fwy cyfyng na'r rhai sydd ar gael i Gyllid a Thollau EM. Er enghraifft, ni chynigir pwerau sy'n caniatáu arestio a chadw i ACC am nad ydynt yn cael eu hystyried yn angenrheidiol nac yn gymesur. Fodd bynnag, mae pwerau i gael mynediad i fangreoeedd ac i gael gwybodaeth sy'n gysylltiedig â throseddau treth yn cael eu cynnig. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ynghylch effaith darparu'r pwerau troseddol penodol arfaethedig i ACC.

- 1.5 Mae datganoli trethi yn creu dyletswyddau newydd, a bydd un ohonynt yn diogelu buddiannau dinasyddion sy'n parchu'r gyfraith drwy fynd i'r afael â'r rhai a fyddai'n ceisio efadu eu dyletswyddau. Edrychaf ymlaen at eich cyfraniadau ynghylch y mater pwysig hwn.

Mick O'Rourke

2 Cyflwyniad

- 2.1 Mae Deddf Cymru 2014 wedi darparu cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu ar gyfer trethi ar drafodiadau sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir ac ar waredu i safleoedd tirlenwi.
- 2.2 O Ebrill 2018 ymlaen, bydd y dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir yn disodli treth dirlenwi a threth dir y dreth stamp y DU. Mae trethi'r DU yn cael eu casglu a'u rheoli gan Gyllid a Thollau EM ar hyn o bryd. O Ebrill 2018 ymlaen, Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fydd yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir. Gall rhagor o drethi'r DU gael eu datganoli i Gymru yn y dyfodol, neu gall trethi newydd, Cymru'n unig, gael eu creu.
- 2.3 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol (OBR) yn rhagweld y bydd ACC yn casglu £288m o drethi gwarediadau tirlenwi a threthi trafodiadau tir yn 2018-19. Rhagwelir y bydd derbyniadau'r ddwy dreth ddatganoledig hyn yn cynyddu i £365m y flwyddyn erbyn 2021-22.

Tabl 1: Rhagamcan o refeniw trethi datganoledig Cymru (£ miliwn)

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Treth Dir y Dreth Stamp	152	203	243	263	282	311	343
Treth Dirlenwi	34	33	28	25	23	22	22
Treth Dir y Dreth Stamp a Threth Dirlenwi	186	236	271	288	305	333	365

Ffynhonnell: OBR (Mawrth 2017) Rhagamcan o'r trethi datganoledig wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Mawrth 2017 y DU.

- 2.4 Bydd y refeniw a godir yn sgil y trethi hyn yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru er budd holl ddinasyddion Cymru. Gallai methu casglu trethi y dylid eu talu effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, a byddai hynny'n annheg ar y rhai hyn sy'n cydymffurfio o'u gwirfodd.

- 2.5 Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn gwneud darpariaeth i system dreth yng Nghymru er mwyn gallu casglu a rheoli trethi sydd wedi'u datganoli i Gymru.
- 2.6 Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn cyflwyno system trethi Cymru i gynorthwyo a galluogi trethdalwyr i gydymffurfio. Yn y rhan fwyaf o achosion, gallwn ddisgwyl i drethdalwyr dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg iawn. Bydd adegau, fodd bynnag, pan fydd angen mesurau ychwanegol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu ystod gynhwysfawr o bwerau ymchwilio a gorfodi sifil i ACC. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau sifil i: fynnu bod trethdalwyr a thrydydd partïon penodol yn darparu gwybodaeth a dogfennau penodol; i archwilio mangreuedd i wirio sefyllfa dreth unigolyn; ac i osod cosbau am beidio â chydweithredu ag ymchwiliad treth.
- 2.7 Rhagwelir y bydd y pwerau hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r achosion lle nad oes cydymffurfiaeth. Pan na fydd trethdalwyr yn cydymffurfio â rhwymedigaeth i dalu treth – gan gynnwys pan na fyddant yn cydymffurfio â chais am wybodaeth, dogfennau neu unrhyw archwiliad – mae gan ACC hefyd y pŵer i roi cosbau ariannol.
- 2.8 Fodd bynnag, yn seiliedig ar brofiadau Cyllid a Thollau EM a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae'n debygol y bydd rhai achosion lle bydd trethdalwyr yn fwriadol yn peidio â chydymffurfio â'u rhwymedigaethau, ac ni fydd yr ystod o bwerau sifil yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaid. Cyllid a Thollau EM sy'n gweithredu Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae ganddo fynediad at ystod eang o bwerau troseddol er mwyn mynd i'r afael â throseddau treth sy'n gysylltiedig â'r rhain a threthi eraill. Mae Cyllid a Thollau EM wedi defnyddio ei bwerau mewn nifer o achosion yn ymwneud â threth dirlenwi a threth dir y dreth stamp, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cyllid a Thollau EM wedi neilltuo mwy o adnoddau ar gyfer mynd i'r afael â throseddau treth¹.

1 Dyma rai enghreifftiau diweddar lle mae Cyllid a Thollau EM wedi defnyddio pwerau troseddol i ymchwilio i efaid trethi yng Nghymru a Lloegr:

- 2015 – Ymchwiliad i dwyll treth dirlenwi gwerth £78m yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. Defnyddiwyd ystod o bwerau ymchwiliol troseddol gan gynnwys Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984; Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.
- 2014 – Cafwyd cyfreithiwr yn euog o dwyll gwerth £1m mewn perthynas â threth dir y dreth stamp. Defnyddiwyd Deddf Enillion Troseddau 2002 i adennill rhywfaint o'r dreth a gafodd ei dwyn.

2.9 Rydym yn credu bod achos cryf dros gredu y bydd angen rhoi pwerau troseddol penodol i fynd i'r afael â throseddau treth ddatganoledig.

2.10 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am safbwyntiau ynghylch y canlynol:

- yr angen i fynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â threthi datganoledig drwy ddefnyddio pwerau troseddol, a'r sefydliadau a all fod yn rhan o ymchwiliadau ac erlyniadau troseddol;
- goblygiadau ymarferol defnyddio elfennau gwahanol o ddeddfwriaeth pwerau troseddol y DU; a
- sicrhau mesurau diogelu a llywodraethu priodol ar gyfer defnydd posibl y pwerau hyn.

3 Pwerau troseddol i ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig

Cefndir

3.1 Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r achosion lle nad oes cydymffurfiaeth yn derbyn sylw drwy'r systemau archwilio a chosbi sifil a ddisgrifir uchod. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i sylwadau'r ymgynghoreion ynghylch yr hyn a fyddai'n ystod briodol o bwerau i ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig.

3.2 Ni ellir defnyddio pwerau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 a Deddf Enillion Troseddau 2002, oni bai bod amheuaeth o drosedd neu fod trosedd wedi'i chyflawni. Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn galluogi tystiolaeth a gasglwyd trwy wylidwriaeth neu gudd-wybodaeth ddynol i gael ei defnyddio mewn ymchwiliadau troseddol ac ymchwiliadau sifil.

3.3 Yng nghyd-destun y ddwy dreth ddatganoledig, mae ymddygiad troseddol yn debygol o amrywio o ffyrdd twyllodrus (a allai gynnwys trosedd o dan Ddeddf Twyll 2006), i efadu talu'r swm cywir o dreth sy'n ddyledus (a allai gynnwys troseddu drwy dwyllo cyllid y wlad). Fodd bynnag, mae troseddau eraill a allai gael eu cyflawni mewn perthynas â threthi datganoledig, megis datgelu gwybodaeth a warchodir am

drethdalwr yn anghyfiawn². Yn y ddogfen hon, byddwn yn cyfeirio at y rhain yn gyffredinol fel “troseddau'n ymwneud â threthi datganoledig”.

- 3.4 Mae Deddf Troseddau Ariannol 2017 hefyd yn cyflwyno trosedd gorfforaethol newydd o hwyluso efadu trethi. Gallai'r troseddau hyn gael eu hymchwilio gan ACC mewn perthynas â'r dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir.
- 3.5 Yn amodol ar unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, gallai tystiolaeth a gesglir drwy ddefnyddio pwerau troseddol fel rhan o ymchwiliad troseddol gael eu defnyddio wedyn mewn achosion sifil.

Troseddau twyll

- 3.6 Mae Adran 1 o Ddeddf Twyll 2006 yn darparu troseddau twyll cyffredinol y gellir eu cyflawni drwy dri math o ymddygiad, sef:
 - Twyll trwy ymhoniad anwir (adran 2);
 - Twyll trwy fethiant i ddatgelu gwybodaeth (adran 3);
 - Twyll trwy gamddefnyddio swydd (adran 4).
- 3.7 Yn y tri amrywiad o'r drosedd, canolbwyntir ar yr ymddygiad a waherddir a'r bwriad cudd.

Twyllo cyllid y wlad

- 3.8 Yn ogystal â'r troseddau twyll statudol a sefydlwyd gan Ddeddf 2006, mae trosedd o dan y gyfraith gyffredin a elwir yn “twyllo cyllid y wlad”. Pan fydd unigolyn yn cyflawni'r drosedd hon bydd ymddwyn mewn ffordd dwyllodrus – boed trwy wneud ymhoniad anwir, neu trwy gelu neu beidio â datgelu rhwymedigaeth neu incwm – sy'n amddifadu'r Goron neu'r cyhoedd o arian sy'n ddyledus iddynt³.
- 3.9 Gallai hyn gynnwys tan-ddatgan y tâl sydd wedi'i roi am drafodiad eiddo ar dreth dir y dreth stamp, neu ar ffurflen dreth trafodiadau tir yn y dyfodol. Yng nghyd-destun y dreth gwarediadau tirlenwi, gallai hyn ymwneud â gweithredwr safle tirlenwi yn cytuno i gwsmer osgoi'r bont bwysu, ac felly'n gwaredu gwastraff heb dreth.

²Adran 20 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

³*R v Bradbury* (1956) 2 Q.B. 262; a *R v Hudson* (1956) 2 W.L.R. 914

Y dreth gwarediadau tirlenwi

3.10 Cyflwynwyd Bil y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2016. Mae'r Bil yn creu treth gwarediadau tirlenwi, ac mae'n nodi sut y bydd yn berthnasol i warediadau gwastraff yng Nghymru o Ebrill 2018 ymlaen – ar ôl y dyddiad hwnnw ni fydd treth dirlenwi'r DU yn berthnasol yng Nghymru. Fel y dreth dirlenwi, bydd y dreth gwarediadau tirlenwi yn dreth ar waredu gwastraff drwy dirlenwi, a chodir tâl yn ôl pwysau. Bydd yn daladwy gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, a fydd yn trosglwyddo'r costau hyn i weithredwyr gwastraff. Bydd yn cael ei chodi hefyd ar warediadau heb eu hawdurdodi – gwastraff a waredir y tu allan i safleoedd tirlenwi awdurdodedig.

Osgoi treth ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig

3.11 Mae tystiolaeth⁴ yn awgrymu bod treth dirlenwi yn agored i efadu trethi – yn rhannol oherwydd cyfradd uchel y dreth a'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y gyfradd is (£2.65) a'r gyfradd uwch bresennol (£84.40). Os bydd y dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cadw'r un cyfraddau, mae'n rhesymol i dybio y bydd yr un cymhelliad i efadu treth yn parhau. Ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig, gallai hyn ddigwydd ar ffurf cam-ddosbarthu gwastraff neu wastraff heb ei ddatgan. Gallai hyn gynnwys safle cymeradwy sy'n derbyn gwastraff yn anghyfreithlon ond wedyn yn cam-ddosbarthu gwastraff cyfradd uwch fel gwastraff cyfradd is. Gallai hyn arwain at fwy nag £81 o dreth yn cael ei hefadu am bob tunnell o wastraff a waredir.

3.12 Yn 2016, cyhoeddodd Cyllid a Thollau EM [Measuring Tax Gaps 2016 edition](#). Mae'r adroddiad yn amcangyfrif y swm o'r dreth a ddylai gael ei gasglu ac yn cymharu hyn â'r dreth a gesglir mewn gwirionedd. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif (ar gyfer 2-14-15) bwlch treth o 12% yn achos y dreth dirlenwi (ledled y DU), sy'n cyfateb i tua £150m (mae'r amcangyfrif sy'n cyfateb ar gyfer Cymru yn tua £3m).

3.13 Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol, *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret*, yn cyfeirio at enghraifft lle bu efadu trethi o'r fath yn achos y dreth dirlenwi:

⁴Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol, *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret*

“Cymerodd y Rheolwr Malcolm Smart a gweithredwr y bont bwysu Victor Millin gildwrn i gam-ddosbarthu gwastraff a thanbwysu’n fwriadol loriau a oedd yn gollwng gwastraff yn Sand Farm Landfill, yn Calne, Wiltshire. Ar ôl ymchwiliad tair blynedd a hanner i’r twyll, a oedd yn cynnwys gwylidwriaeth, canfuwyd fod y ddau ddyn, rhwng Ebrill 2007 a Hydref 2010, wedi costio tua £700,000 i Viridor, perchnogion y safle. Collodd y Trysorlys tua £200,000 mewn treth dirlenwi a TAW. Amcangyfrifir fod Mr Smart wedi ennill tua £350,000. Gan ddefnyddio’r Ddeddf Enillion Troseddau, gorchmynnwyd Mr Smart i dalu £211,000 neu wynebu tair blynedd o garchar.”

- 3.14 Mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod y dreth dirlenwi sydd wedi'i hosgoi ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig yn cyfrif am £157m yn y DU bob blwyddyn, yn debyg i amcangyfrif Cyllid a Thollau EM ar gyfer cyfanswm y bwllch treth ar gyfer y dreth dirlenwi.
- 3.15 Mae achosion proffil uchel yn mynd trwy'r llysoedd ar hyn o bryd lle'r honnir bod efadu trethi sy'n ymwneud â'r dreth dirlenwi wedi digwydd. Wrth ymchwilio i'r achosion hyn, mae Cyllid a Thollau EM wedi defnyddio pwerau troseddol i gasglu'r dystiolaeth berthnasol.

Gwarediadau heb eu hawdurdodi

- 3.16 Bydd y dreth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru'n wahanol i'r dreth dirlenwi yn yr ystyr y bydd yn codi tâl am wastraff a waredwyd y tu allan i safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Ar hyn o bryd, o dan y dreth dirlenwi, dim ond ar wastraff a waredir mewn safle tirlenwi y gellir codi treth, sydd â'r drwydded amgylcheddol gywir – mae 25 o safleoedd o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd.
- 3.17 Amcangyfrifir fod 60 o safleoedd gwastraff anghyfreithlon ar waith yng Nghymru⁵. Mae'r rhain yn aml yn ymddangos fel safleoedd dilys, ond nid oes ganddynt yr awdurdod perthnasol. Mae Bil y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) yn darparu ar gyfer casglu trethi o'r safleoedd hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio pwerau i ymchwilio i droseddau er mwyn mynd i'r afael ag achosion sy'n cynnwys safleoedd o'r fath sy'n efadu talu trethi.

Trethtrafodiadau tir

⁵Ffigurau Cyfoeth Naturiol Cymru

3.18 Cafodd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2017.

3.19 Nid yw natur y trafodiadau tir yn arwain at efnadu trethi mor rhwydd â gwaredu gwastraff. Caiff y rhan fwyaf o'r trafodiadau eu gwneud trwy asiant (cyfreithiwr neu asiant trawsgludo fel arfer) sy'n cynrychioli'r prynwr. Yn y mwyafrif o achosion, pan fydd newid ym mherchnogaeth y tir yn cael ei gofrestru â'r Gofrestrfa Dir, mae'n angenrheidiol cael tystysgrif gan ACC yn cadarnhau bod ffurflen dreth trafodiadau tir wedi'i llenwi.

3.20 Fodd bynnag, er eu bod yn brin, gwelwyd achosion lle mae'r ffurflen wedi'i ffugio, trwy addasu gwerth yr eiddo i efnadu talu lefel gywir y dreth. Mewn achosion eraill, mae cynrychiolwyr cyfreithiol wedi cymryd taliadau'r dreth ond heb eu hanfon ymlaen at Gyllid a Thollau EM (drwy hawlio gostyngiad yn y dreth yn dwyllodrus neu danddatgan y gydnabyddiaeth sydd wedi'i rhoi am bryniad eu cleient o bosibl), sy'n golygu bod y prynwr wedi'i dwyllo o'r dreth a dalwyd (am fod yr unigolyn hwnnw'n parhau i fod yn atebol i dalu'r dreth).

Casgliad

3.21 Mae posibilrwydd go iawn y ceir troseddau mewn perthynas â threthi datganoledig i Gymru yn y dyfodol. Bydd galluogi ACC i ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig fel mae Cyllid a Thollau EM yn ei wneud yng nghyswllt y dreth dirlenwi a threth dir y dreth stamp, gyda chyfres gyson o bwerau i ymchwilio i droseddau, yn helpu i sicrhau na fydd Cymru'n cael ei gweld fel targed hawdd i'r rhai a all fod am geisio efnadu trethi. Mae atodiad A yn crynhoi'r pwerau hyn sydd gan Gyllid a Thollau EM ar hyn o bryd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn trafod a ydynt yn berthnasol i ACC. Byddai rhoi gwybod i'r cyhoedd bod pwerau troseddol priodol ar waith yn ddigon i atal y rheini sy'n ystyried efnadu trethi.

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno y dylai pwerau troseddol fod ar gael i fynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â threthi datganoledig?

Rhowch resymau dros eich ateb a rhannu sylwadau sydd gennych chi.

Ymchwilio i droseddau

- 3.22 Mae sawl corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, y GIG, Cyfoeth Naturiol Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), yn defnyddio pwerau troseddol ar hyn o bryd i gynnal ymchwiliadau yng nghyswllt eu swyddogaethau eu hunain.
- 3.23 Fel y nodwyd eisoes, Cyllid a Thollau EM sy'n arwain y gwaith o ymchwilio i droseddau o fewn y system dreth (gan gynnwys y trethi hynny a fydd yn cael eu datganoli i Gymru), o ran blaenoriaethu, mynediad at wybodaeth a phenderfynu ai camau sifil neu droseddol fydd er budd pennaf diogelu'r cyllid. Mae egwyddor debyg yn berthnasol i gyrrff amgylcheddol sydd â phwerau eu hunain i ymchwilio yn y meysydd maent yn eu rheoleiddio.
- 3.24 Dim ond pwerau sifil sydd gan Gyllid yr Alban, y corff sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli treth dirlenwi a threth trafodiadau tir ac adeiladau'r Alban. Felly, mae gofyn i heddlu'r Alban arwain holl elfennau'r ymchwiliadau troseddol sy'n ymwneud â threthi sydd wedi'u datganoli i'r Alban.
- 3.25 Byddai'n bosibl i'r heddlu yng Nghymru arwain holl elfennau'r ymchwiliadau i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig. Fodd bynnag, byddai hwn yn gyfrifoldeb ychwanegol i'r heddlu yng Nghymru a byddai angen i'r heddlu ystyried ystod o flaenoriaethau eraill cyn gallu gweithredu. Y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am blismona yng Nghymru a Lloegr, (er bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r heddlu yn rhannol ac, ynghyd ag awdurdodau lleol Cymru, mae ganddynt berthynas gref ac agos â'r heddlu yng Nghymru).
- 3.26 Mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio bod ACC yn ymchwilio i droseddau treth eu hunain. Byddem yn disgwyl i ACC ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn yr amcangyfrif cyfredol o gost gweithredu'r trethi datganoledig. Byddai disgwyl hefyd i ACC fod yn gyson o ran mesurau diogelu (gweler adran pump). Caiff y dewis hwn ei ffafrio oherwydd y bydd gan Weinidogion Cymru berthynas strategol uniongyrchol ag ACC drwy'r llythyr cylch gwaith blynyddol a chyllid i sicrhau bod y dull o ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig yn gymesur ac yn effeithiol.
- 3.27 Gan fod rheolau trethi yn amrywio ledled y DU ar ôl datganoli pwerau trethi i Gymru a'r Alban, mae'n hanfodol bod ymdrechion yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â throseddau treth mewn ffordd gyson ac sydd er budd pennaf trethdalwyr a busnesau sy'n cydymffurfio, fel nad oes yr un rhan o'r DU yn hafan ddiogel i'r rheini sy'n efnadu trethi. Bydd yn bwysig

bod unrhyw sefydliad sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig yn gweithio'n agos gyda Chyllid a Thollau EM a Chyllid yr Alban i rannu gwybodaeth a sicrhau gorfodi effeithiol.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno y dylai ACC fod yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig?

Rhowch resymau dros eich ateb a rhannu sylwadau sydd gennych chi.

Erlyn troseddau'n ymwneud â threthi datganoledig

3.28 Mae ymchwiliadau troseddol Cyllid a Thollau EM yn cael eu cynnal gyda golwg ar erlyniad gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn galluogi ACC i gychwyn achosion troseddol neu sifil yng Nghymru a Lloegr, (adran 21). Os yw ACC yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig, bydd angen i ACC benderfynu maes o law pwy fydd yn erlyn troseddau'n ymwneud â threthi datganoledig a ddatgelir gan ymchwiliad: Gwasanaeth Erlyn y Goron neu ACC. Er enghraifft, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru dîm mewnol a all reoli erlyniadau ar eu rhan (mewn perthynas â throseddau amgylcheddol).

Cwestiwn 3

Ydych chi'n credu y dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron erlyn troseddau'n ymwneud â threthi datganoledig er mwyn bod yn gyson â Chyllid a Thollau EM? Neu a ddylai hyn gael ei wneud gan Awdurdod Cyllid Cymru?

Rhowch resymau dros eich ateb a rhannu unrhyw sylwadau sydd gennych chi.

4 Manylion y pwerau troseddol

4.1 Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu y dylai ACC fod yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig, mae rhan 9 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â:

- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984: mae adran 185(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu ar gyfer diwygio Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i allu defnyddio darpariaethau penodol o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 mewn ymchwiliadau troseddol sy'n cael eu cynnal gan ACC.
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001: mae adran 185(2) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, sy'n rhoi pwerau penodol i ymchwilyr gymryd a chadw deunyddiau sydd wedi'u canfod wrth ymchwilio.
- Y Ddeddf Enillion Troseddau: Mae adran 186 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn diwygio adran 453 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud gorchymyn sy'n pennu bod rhai pwerau a gaiff eu darparu gan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn gallu cael eu harfer gan "ymchwilyr ariannol achredig" sydd wedi'u penodi gan ACC yn ystod ymchwiliad troseddol.
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000: mae adran 187 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn diwygio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n rhagnodi'r rhai sy'n arfer swyddogaethau ACC i allu caniatáu awdurdodiadau ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu gudd-wybodaeth ddynol o dan adrannau 28 a 29 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Mae isadran (3) hefyd yn diwygio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 fel bod ACC yn "awdurdod cyhoeddus perthnasol" at ddibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

4.2 Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn nodi ystod o bwerau ymchwiliol y gall asiantaethau gorfodi'r gyfraith penodedig eu defnyddio wrth ymchwilio i droseddau. Mae'r rhain yn amodol ar fesurau diogelu deddfwriaethol digonol (mae rhagor o fanylion yn adran pump). Mae'r pwerau hyn yn cynnwys:

- Rhan 1: pwerau i stopio a chwilio – mae'r rhan hon yn ymdrin â'r gallu i stopio a chwilio pobl a / neu gerbydau i goladu tystiolaeth pan fydd amheuaeth o drosedd;
- Rhan 2: pwerau mynediad, chwilio a chymryd – mae'r rhan hon yn ymdrin â'r gallu i gael mynediad i fangreoedd a chymryd a chadw eiddo a ganfyddir yn y mangreoedd y gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth;
- Rhan 3: arestio – mae'r rhan hon yn nodi'r gofynion ar gyfer arestio yn gyfreithlon;
- Rhan 4: cadw – mae'r rhan hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer cadw unigolyn ar ôl ei arestio;
- Rhan 5: holi a thrin pobl gan yr heddlu – mae'r rhan hon yn amlinellu sut y dylai'r heddlu gynnal eu cyfweiliadau.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (CJPA)

4.3 Cafodd Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu ei sefydlu i ymestyn y pwerau sydd gan yr heddlu i fynd i'r afael a throeddu ac anrhefn, ymhlith pethau eraill. Gwnaeth hynny drwy wneud darpariaeth am bwerau'r heddlu i chwilio a chymryd, sy'n cynnwys ymestyn y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

4.4 Yn benodol, mae adrannau 50 a 51 o Ran 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu, yn ehangu cwmpas pwerau cymryd, gan gynnwys y rhai a ddisgrifir uchod yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Mae'r estyniad hwn yn galluogi swyddog sy'n cynnal archwiliad mangre neu sy'n stopio a chwilio unigolyn, er enghraifft, i gymryd gwrthrych y mae'n rhesymol i'r swyddog gredu ei fod yn cynnwys rhywbeth y mae ganddynt y pŵer i'w gymryd er na fyddai ganddo'r pŵer fel arall i gymryd y gwrthrych cyfan. Er enghraifft, os oedd cyfrifyfr yn cynnwys sawl tudalen o dystiolaeth berthnasol, ond a oedd fel arall yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn amherthnasol i unrhyw drosedd a amheuir, byddai'r darpariaethau yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu yn

galluogi swyddog i gymryd y cyfriflyfr cyfan os nad yw'n rhesymol ymarferol i adnabod y tudalennau perthnasol yn y cyfriflyfr.

- 4.5 Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu hefyd yn cynnwys darpariaethau gweinyddol, mesurau diogelu a darpariaethau deongliadol sy'n berthnasol i'r pwerau cymryd estynedig hyn. Er enghraifft, mae adran 52 yn gosod gofyniad ar swyddog sy'n dibynnu ar y pwerau cymryd a geir yn adrannau 50 neu 51 i roi hysbysiad ysgrifenedig i'r unigolyn perthnasol sy'n cynnwys manylion amrywiol, gan gynnwys yr hyn sydd wedi'i gymryd, y rhesymau am ei gymryd a pha gamau y gall yr unigolyn eu cymryd i herio'r penderfyniad i gymryd yr eiddo. Mae adran 59 yn rhoi'r hawl i unrhyw berson sydd â diddordeb mewn eiddo sydd wedi'i gymryd gan ddefnyddio'r pwerau hyn wneud cais i'r llys iddo gael ei ddychwelyd.

Casgliad

- 4.6 Mae ystod y pwerau a geir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu yn eang ac maent yn fwy na dim yn darparu'r pwerau sydd eu hangen ar yr heddlu i ymgymryd â'u dyletswyddau. O ystyried natur trethi datganoledig, nid ydym yn disgwyl y bydd ar ACC angen mynediad at yr holl bwerau a nodir yn y Deddfau hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhai pwerau ar ACC er mwyn ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig fel y gwna Cyllid a Thollau EM ar hyn o bryd. Mae'r rhain i'w gweld yn y tablau isod.

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu – pŵerau i ymchwilio i droseddau	
Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
Stopio a Chwilio	<p>Mae Adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn rhoi'r pŵer i swyddogion stopio a chwilio cerbydau ac unigolion i chwilio am eitemau 'gwaharddedig' neu sydd wedi'u dwyn (megis arfau ymosodol). Mae Adrannau 2 i 7 yn cynnwys darpariaeth fanwl, gan gynnwys mesurau diogelu, a fyddai'n berthnasol ochr yn ochr ag unrhyw bŵerau.</p> <p>Mae Deddf Rheoli Tollau Cartref a Thramor 1979 yn rhoi pŵerau stopio a chwilio i Gyllid a Thollau EM yng nghyswllt tollau cartref penodol. Gellir defnyddio'r rhain os bydd un o swyddogion Cyllid a Thollau EM yn amau bod llong yn cynnwys nwyddau nad yw tollau wedi'u talu arnynt. <u>Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes gan Gyllid a Thollau EM bŵerau stopio a chwilio yn achos treth dirlenwi na threth dir y dreth stamp.</u></p>
<p>Cwestiwn 4</p> <p>Cynigir na ddylid rhoi <u>pŵerau stopio a chwilio</u> i ACC o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i gynnal ymchwiliadau troseddol mewn perthynas ag ymchwiliadau i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig.</p> <p>Beth yw manteision neu anfanteision peidio â rhoi'r pŵerau hyn i ACC? Rhowch enghreifftiau.</p>	
Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
Mynediad, chwilio a chymryd	<p>Mae Adran 8 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn cynnwys pŵer i ynad heddwch awdurdodi mynediad a chwilio mangreoedd, ar ôl cael cais gan swyddog. Mae hyn yn cynnwys caniatáu mynediad a chwilio heb roi rhybudd. Gellid gwneud darpariaeth i alluogi ACC i wneud cais o'r fath, a chael mynediad a chwilio mangreoedd ar ôl cael awdurdod. Mae adrannau 9 i 16 yn cynnwys darpariaeth fanwl, gan gynnwys mesurau diogelu a darpariaethau arbennig i gael mynediad at wrthrychau sy'n dod o dan faint gyfreithiol, deunydd wedi'i eithrio neu ddeunydd gweithdrefn arbennig, a fyddai'n berthnasol ochr yn ochr ag unrhyw bŵerau.</p>

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu – pwerau i ymchwilio i droseddau

Pŵer

Diben a defnydd arfaethedig

O dan adran 117 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, caniateir i swyddogion yr heddlu ddefnyddio grym rhesymol i arfer unrhyw bŵer o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol os oes angen, gan gynnwys unrhyw bŵer mynediad, chwilio neu gymryd. Mae adran newydd 114ZA o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n "make provision permitting a person exercising a function conferred on WRA by the regulations to use reasonable force in the exercise of such a function". Os bydd swyddogion ACC yn cael y pwerau hyn yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, byddai angen rhoi hawl gyfatebol iddynt er mwyn defnyddio grym rhesymol pan fo angen.

Mae adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn galluogi swyddog sydd mewn unrhyw fangre'n gyfreithlon (gan gynnwys pan fydd yn arfer pŵer mynediad a chwilio) i gymryd unrhyw wrthrych y mae'n rhesymol iddo gredu sy'n dystiolaeth gysylltiedig â throsedd, a bod angen ei gymryd i'w atal rhag cael ei guddio, ei golli, ei ddinistrio ac yn y blaen. Mae adrannau 20 i 22 yn gwneud darpariaeth fanylach ynglŷn â chymryd, gan gynnwys sicrhau bod modd cymryd gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiaduron.

Gall pwerau i gael mynediad ac i chwilio mangreoedd heb rybudd fod yn ddefnyddiol i ymchwilio pan fydd amheuaeth o drosedd a bod angen cael mynediad i fangre i gymryd tystiolaeth. Mae'r pwerau hyn ar gael eisoes i swyddogion Cyllid a Thollau EM, sy'n eu galluogi i gymryd unrhyw ddeunydd y mae'n rhesymol i swyddog gredu sy'n dystiolaeth sy'n gysylltiedig â throsedd, lle mae angen ei atal rhag cael ei golli neu ei ddinistrio. Mae'r pŵer yn ymestyn i wybodaeth a gedwir mewn fformat electronig (fel negeseuon e-bost neu lythyrau).

Cwestiwn 5

Cynigir bod swyddogion ACC yn cael y pŵer i wneud cais i ynad heddwch am warant i gael mynediad, i chwilio a chymryd

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu – pwerau i ymchwilio i droseddau	
Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
<p>eitemau o fangreoedd neu chwilio unigolion a ganfuwyd yn y mangreoedd hynny wrth ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig. Bydd hyn yn cynnwys y pŵer i ddefnyddio grym rhesymol pan fo angen i arfer y swyddogaeth honno.</p> <p>Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC? Rhowch enghreifftiau.</p>	
Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
<p>Pwerau sy'n caniatáu arestio a chadw</p>	<p>Mae adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn disgrifio'r amgylchiadau lle caiff yr heddlu arestio unigolyn heb warant, a'r sail dros arestio. Mae Rhan 3 hefyd yn cynnwys darpariaeth fanwl sy'n llywodraethu (ymhlith pethau eraill) y broses sy'n dilyn yn union ar ôl arestio, gan gynnwys mesurau diogelu. Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth fanwl am gadw unigolyn sydd wedi'i arestio. Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth fanwl am holi a thriniaeth pobl gan yr heddlu.</p> <p>O gofio'r nifer fechan o droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig y disgwylir yr ymdrinnir â hwy bob blwyddyn a'r niferoedd llai fyth pan fydd angen arestio, nid yw Llywodraeth Cymru'n credu ar hyn o bryd y byddai'n gymesur i swyddogion ACC gael eu hyfforddi na'u paratoi i arestio, cadw na holi unigolion. Os bydd angen arestio, disgwylir y bydd ACC a/neu gyrff dirprwyedig yn gweithio gyda'r heddlu.</p> <p>Mae adran 18 yn caniatáu i swyddog gael mynediad i fangreoedd a'u chwilio am dystiolaeth ar ôl i unigolyn gael ei arestio am drosedd. Gan nad ydym yn bwriadu rhoi pwerau arestio i swyddogion ACC, nid ydym yn bwriadu rhoi iddynt y pwerau mynediad a chwilio cysylltiedig a geir yn adran 17 ac 18 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol ychwaith. Mae gan Gyllid a Thollau EM bwerau i arestio a chadw.</p>

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu – pwerau i ymchwilio i droseddau	
Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
<p>Cwestiwn 6</p> <p>Cynigir nad yw ACC yn cael pwerau i arestio, cadw na holi unigolion fel rhan o ymchwiliad troseddol.</p> <p>Beth yw manteision neu anfanteision peidio â rhoi'r pwerau hyn i ACC? Rhowch enghreifftiau.</p>	
Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
Codau Ymarfer	Mae adrannau 66 a 67 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol i gynhyrchu codau ymarfer sy'n llywodraethu sut y mae'r heddlu'n arfer pwerau i chwilio, cymryd, arestio, cadw ac ati. Mae adran 67 yn ymestyn y modd y gellir defnyddio'r codau ymarfer hyn i unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau neu gyhuddo troseddwr. Os bydd ACC yn ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig, bydd y Codau Ymarfer yn cael eu defnyddio.
<p>Cwestiwn 7</p> <p>A ddylai ACC ddatblygu mesurau/canllawiau diogelu ychwanegol i arfer y pwerau hyn? Rhowch enghreifftiau.</p>	
Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
Deddf Cyfiawnder Troseddol	Mae adrannau 50 a 51 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu yn ymestyn cwmpas pwerau cymryd, gan gynnwys y rhai a ddisgrifir uchod yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Mae'r estyniad hwn yn galluogi swyddog sy'n archwilio mangre neu unigolyn, er enghraifft, i gymryd gwrthrych y mae'n rhesymol i'r swyddog gredu ei fod yn

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu – pwerau i ymchwilio i droseddau

Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
a'r Heddlu	<p>cynnwys rhywbeth y mae ganddo'r pŵer i'w cymryd er na fyddai ganddo'r pŵer fel arall i gymryd y gwrthrych cyfan.</p> <p>Credwn y bydd y pwerau ychwanegol a geir yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu yn ychwanegiad defnyddiol i ymestyn y pwerau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (os cymerir y pwerau hyn).</p> <p>Byddai'r pwerau ychwanegol hyn yn ddefnyddiol pan fydd swyddogion, wrth chwilio mangre, yn amau bod tystiolaeth argyhuddol mewn ffeil neu ffolder neu liniadur. Yn absenoldeb y pŵer hwn, mae'n bosibl na fydd gan y swyddog y pŵer i gymryd y ffeil, y ffolder neu'r gliniadur ar y sail na fydd y swyddog yn gwybod a oes unrhyw dystiolaeth argyhuddol nes bydd wedi'i ddadansoddi. Mae'r Ddeddf hon yn galluogi swyddog ymchwilio i gymryd y gwrthrych er mwyn ystyried ac adolygu'r gwrthrych er mwyn pennu a oes tystiolaeth ar y gwrthrych.</p> <p>Mae Rhan 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu hefyd yn cynnwys darpariaethau gweinyddol, mesurau diogelu a darpariaethau deongliadol sy'n berthnasol i'r pwerau cymryd estynedig hyn. Pe bai'r pwerau ychwanegol hyn yn cael eu rhoi i swyddogion ACC, byddem hefyd yn cymhwyso'r darpariaethau cysylltiedig yn Rhan 2, gan gynnwys y mesurau diogelu. Mae gan Gyllid a Thollau EM fynediad at y pwerau hyn ar hyn o bryd, ac mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â'r mesurau diogelu fel yr amlinellir yn y ddeddfwriaeth.</p>

Cwestiwn 8

Cynigir bod ACC yn cael pwerau estynedig o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu i gynyddu'r pwerau sydd ar gael iddo eisoes o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (os cymerir y pwerau hyn).

Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC? Rhowch enghreifftiau.

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu – pwerau i ymchwilio i droseddau

Pŵer

Diben a defnydd arfaethedig

Cwestiwn 9

A ddylid rhoi unrhyw bŵer ychwanegol o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984/ Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i ACC? Os felly, rhwch enghreifftiau.

Deddf Enillion Troseddau 2002 (“POCA”)

4.7 Mae Deddf Enillion Troseddau 2002 yn gwneud darpariaeth i adennill asedau a gafwyd trwy ymddygiad troseddol. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau nad yw troseddwr yn elwa ar eu hymddygiad troseddol, a fydd yn helpu i atal unigolion rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol. Hefyd, mae atafaelu asedau'n lleihau'r cronfeydd sydd ar gael i droseddwr i ariannu rhagor o fentrau troseddol. Mae defnydd y pwerau amrywiol sydd yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn galluogi Cyllid a Thollau EM (ymhlith asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill) i gynnal yr ymchwiliadau canlynol yn effeithiol:

- Ymchwiliadau atafaelu;
- Ymchwiliadau arian parod a gedwir;
- Ymchwiliadau gwyngalchu arian.

4.8 Mae ymchwiliad atafaelu yn ymchwilio a yw person wedi elwa ar ei ymddygiad troseddol, a graddau neu leoliad y budd hwnnw.

4.9 Mae ymchwiliad arian parod a gedwir yn ymchwilio i ffynhonnell yr arian parod a gedwir neu ran o arian parod o'r fath, neu'n ymchwilio a yw'r arian parod a gedwir, neu ran o arian parod o'r fath, wedi'i fwriadu i gael ei ddefnyddio mewn ymddygiad anghyfreithlon.

4.10 Mae ymchwiliad gwyngalchu arian yn ymchwilio a yw unigolyn wedi cyflawni trosedd gwyngalchu arian.

4.11 Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn caniatáu i Gyllid a Thollau EM - pan fydd yn cynnal y tri math o ymchwiliad a nodwyd uchod - i wneud cais i'r llysoedd am amrywiaeth o orchmynion o dan Ran 8 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (gan gynnwys gorchmynion cynhyrchu a gwarantau chwilio a chymryd) i gynorthwyo'r ymchwiliad.

4.12 Mae'r Ddeddf Enillion Troseddau yn rhoi'r pŵer i Lys y Goron wneud y canlynol:

- Gwneud gorchymyn atafaelu yn achos unigolyn sydd wedi elwa ar ymddygiad troseddol, sy'n mynnu bod yn rhaid i'r unigolyn hwnnw dalu unrhyw 'fudd' (incwm ariannol, er enghraifft) a gawsant (gweler rhan 2, ac adran 6 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn benodol);
- Gwneud gorchymyn atal yn achos unigolyn, sy'n gallu rhewi eiddo y gellir ei atafaelu yn dilyn y treial a gwneud y gorchymyn atafaelu

(gweler adrannau 40 i 47 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000).

4.13 Mae nifer o fesurau diogelu pwysig yn berthnasol i'r pwerau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys: hawliau amrywiol i apelio ac i wneud sylwadau (mewn achosion penodol); terfynau amser ar gyfer cadw eiddo; gwahardd rhai mathau o eiddo personol o'r hyn y gellir ei gymryd a'i gadw; darpariaeth ar gyfer codau ymarfer i'w dilyn wrth arfer pwerau penodol o'r Ddeddf Enillion Troseddau.

Rhestru ACC fel ymchwiliwr ariannol achredig

4.14 Dim ond y rhai a enwir yn y Ddeddf sy'n cael defnyddio'r pwerau o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a ddisgrifir uchod, a "ymchwiliwr ariannol achredig" sy'n arfer swyddogaethau ar ran unrhyw asiantaeth gorfodi'r gyfraith a restrir mewn is-ddeddfwriaeth.

4.15 Mae adran 186 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn diwygio adran 453 o'r Ddeddf Enillion Troseddau fel bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i sicrhau, trwy is-ddeddfwriaeth, bod cyfeiriad penodol yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 at ymchwiliwr ariannol achredig yn cynnwys cyfeiriad at berson sy'n arfer swyddogaethau ACC ac sydd wedi'i bennu o dan ddisgrifiad penodol.

4.16 Fel hyn, gall ACC arfer rhai o'r pwerau a geir yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, fel y disgrifir uchod, drwy ddefnyddio "ymchwiliwr ariannol achredig". Mae "ymchwiliwr ariannol achredig" yn ymchwiliwr ariannol sydd wedi'i achredu gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn unol ag adran 3 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Nid oes gan Gyllid a Thollau EM fynediad at bwerau Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 trwy ddefnyddio ymchwiliwr ariannol achredig - mae ei swyddogion yn cael pwerau'n uniongyrchol gan y Ddeddf.

Perthnasedd i ACC

4.17 Ar hyn o bryd, caiff y pwerau yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 eu defnyddio yng Nghymru gan Gyllid a Thollau EM. Hefyd, mae'r asiantaethau a restrir fel rhai sy'n gallu defnyddio'r pwerau hyn trwy ymchwiliwr ariannol achredig yn cynnwys awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru.

- 4.18 Rydym o'r farn y dylai ACC hefyd gael y gallu i arfer y rhan fwyaf o'r pwerau sydd yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, sydd ar hyn o bryd yn cael eu harfer gan Gyllid a Thollau EM drwy ddefnyddio ymchwiliwyr ariannol achredig. Mae atodiad A yn rhoi darlun o rai o'r pwerau y gallai ymchwiliwr ariannol achredig eu defnyddio, gan gynnwys gorchmynion atal, gorchmynion cynhyrchu, gwarantau chwilio a chymryd, gorchmynion gwybodaeth cwsmeriaid a gorchmynion monitro cyfrifon, (gall y ddwy enghraifft olaf eu gwneud mewn perthynas ag ymchwilio i arian parod a gedwir). Byddai defnydd o bwerau o'r fath yn sicrhau bod ACC yn gallu mynd i'r afael yn effeithiol ag efnadu trethi yng Nghymru, a hynny mewn ffordd sy'n gydnaws â'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyllid a Thollau EM. Gallai'r pwerau hyn sicrhau bod troseddwr yn colli unrhyw fuddiannau ariannol a gafwyd trwy dwyll (trethi) neu dwyllo cyllid y wlad.
- 4.19 Ni chynigir y dylai ymchwiliwyr ariannol achredig sy'n gweithio i ACC gael y gallu i arfer y pwerau sydd yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yng nghyswllt achosion yn ymwneud â gwyngalchu arian yn y cam hwn. Mae gan Gyllid a Thollau EM swyddogaethau gwyngalchu arian penodol, (gweler adran 23(1)(d) y Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007); nid oes gan ACC y swyddogaethau hyn.

Casgliad

- 4.20 Mae'r pwerau a geir yn y Ddeddf Enillion Troseddau yn galluogi darpariaeth i adennill asedau a gafwyd trwy ymddygiad troseddol a galluogi Cyllid a Thollau EM i gynnal ymchwiliadau yn effeithiol. Mae'n bosibl y bydd angen rhai o'r pwerau hyn ar ACC er mwyn gallu cynnal y rhan fwyaf o'r swyddogaethau hyn drwy ddefnyddio ymchwiliwr ariannol achredig y mae'r diwygiadau y mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 wedi'u gwneud i Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 nawr yn eu galluogi. Mae'r rhain i'w gweld yn y tablau isod.

Deddf Enillion Troseddau 2002 – atal troseddwr rhag cael budd o’u hymddygiad troseddol	
Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
Penodi aelod o staff ACC yn ymchwiliwr ariannol achredig	<p>Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Mae’r diwygiadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi aelodau o staff ACC yn ymchwilwyr ariannol achredig fel bod ganddynt y gallu i arfer pwerau amrywiol o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 (yn amodol ar y darpariaethau sy’n berthnasol i’r Ddeddf) wrth atafael neu ymchwilio i arian parod a gedwir.</p> <p>Caiff ymchwiliadau atafaelu eu cynnal er mwyn canfod a yw unigolyn wedi elwa ar ei ymddygiad troseddol; neu i ganfod graddau neu leoliad y budd hwnnw.</p> <p>Mae ymchwiliadau arian parod a gedwir yn ymchwilio i ffynhonnell yr arian parod a gedwir neu’n ymchwilio a yw arian parod a gedwir wedi’i fwriadu gan unrhyw unigolyn i gael ei ddefnyddio mewn ymddygiad anghyfreithlon..</p> <p>Gall ymchwilwyr ariannol achredig hefyd wneud cais am orchmynion atal ac arfer pwerau cysylltiedig. Mae hwn yn orchymyn Llys y Goron sy’n gwahardd unigolyn rhag delio ag unrhyw “eiddo y gellid ei realeiddio” sydd ym meddiant yr unigolyn hwnnw. Gall y gorchymyn fod yn berthnasol i’r holl eiddo sydd ym meddiant yr unigolyn hwnnw, neu gall bennu eiddo penodol. Bydd y gorchymyn yn gwneud lwfansau ar gyfer costau byw ac ati. Diben y gorchymyn yw atal unigolyn sydd o dan amheuaeth o elwa’n ariannol o ganlyniad i gyflawni troseddau trwy waredu’r asedau hynny cyn cael eu collfarnu. Gellir gwneud cais am y gorchymyn ar unrhyw adeg ar ôl cychwyn yr ymchwiliad troseddol. Os bydd unigolyn y torri amodau’r gorchymyn, bydd yn euog o ddirmyg llys a gall gael ei anfon i’r carchar.</p>
Cwestiwn 10	
Cynigir bod staff ACC yn cael eu henwi fel ymchwilwyr ariannol achredig at ddibenion arfer y pwerau amrywiol sydd yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 wrth atafaelu neu ymchwilio i arian parod a gedwir. Cynigir hefyd y gall	

Deddf Enillion Troseddau 2002 – atal troseddwyr rhag cael budd o’u hymddygiad troseddol	
--	--

Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
-------------	------------------------------------

ymchwilwyr ariannol achredig ACC hefyd wneud cais am orchmynion atal ac arfer pwerau cysylltiedig.

Beth yw manteision ac anfanteision yr uchod? Rhowch enghreifftiau.

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

- 4.21 Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn creu fframwaith rheoleiddio ar gyfer y defnydd o wylwadwriaeth (a gweithgarwch cysylltiedig) gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r fframwaith hwn yn gosod rheolau, gwiriadau a balansau caeth er mwyn sicrhau bod gan y gweithgareddau hyn gydbwysedd priodol rhwng eu nodau cyfreithiol – er enghraifft, casglu trethi – a hawl y cyhoedd i breifatrwydd. Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth, i ragnodi unigolion fel rhai sydd wedi'u dynodi at ddibenion adrannau 28 a 29 o Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a all awdurdodi gwylwadwriaeth gyfeiriedig a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol.
- 4.22 Mae gwylwadwriaeth gyfeiriedig yn golygu, yn gyffredinol, gwylwadwriaeth sy'n gudd ond nid yn ymwithiol – er enghraifft, nid yw'n golygu cael mynediad i anheddiad neu gerbyd preifat – ac mae'n cael ei wneud i ddibenion ymchwiliad penodol, mewn ffordd sy'n debygol o sicrhau gwybodaeth breifat am unigolyn. Mae gwylwadwriaeth yn gudd os, a dim ond os, yw'n cael ei wneud mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw'r bobl sy'n cael eu gwylwio'n ymwybodol bod hynny'n digwydd. Gall gwylwadwriaeth gyfeiriedig fod yn rhan o lawer o ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal i ganfod ffeithiau heb yn wybod i'r unigolyn perthnasol.
- 4.23 Mae ffynhonnell cudd-wybodaeth ddynol yn golygu unigolyn sy'n:
- a) Ffurio neu'n cynnal perthynas bersonol neu berthynas arall ag unigolyn i'r dibenion cudd o hwyluso unrhyw beth sy'n dod o fewn paragraff (b) neu (c);
 - b) Maent yn defnyddio perthynas o'r fath mewn ffordd gudd i gael gwybodaeth, neu i roi mynediad i unrhyw wybodaeth i unigolyn arall;
 - c) Maent yn datgelu gwybodaeth yn gudd a gafwyd yn sgil perthynas o'r fath, neu o ganlyniad i fodolaeth perthynas o'r fath.
- 4.24 Gellir defnyddio'r pwerau sydd yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i goladu tystiolaeth ar gyfer achosion troseddol a sifil, ond ni ellir defnyddio'r holl bwerau troseddol eraill oni bai bod amheuaeth bod trosedd wedi'i chyflawni. Mae hyn yn golygu, pe bai'r pŵer i wneud yr awdurdodiad hwn yn cael ei roi, byddai ACC yn gallu defnyddio pwerau gwylwadwriaeth a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol at ddibenion asesu neu gasglu trethi datganoledig.
- 4.25 Er enghraifft, mae Cyllid a Thollau EM wedi cadarnhau bod y pwerau yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn gyfrwng pwysig i gasglu

tystiolaeth mewn achosion maent yn bwrw ymlaen â hwy mewn cysylltiad â'r dreth tirlenwi. Rydym o'r farn y bydd defnydd o wyliadwriaeth gyfeiriedig (teledu cylch cyfyng, er enghraifft), yn arbennig o bwysig i ACC pan fydd yn ymchwilio i rwymedigaethau'r dreth gwarediadau tirlenwi sy'n codi o ganlyniad i waredu gwastraff y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig, pan fydd dod o hyd i'r rhai sy'n gyfrifol yn bryder o bwys.

Casgliad

4.26 O dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, efallai y bydd ACC angen gwylidwriaeth gyfeiriedig a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol at ddibenion asesu neu gasglu trethi datganoledig. Mae Cyllid a Thollau EM eisoes yn defnyddio pwerau o'r fath i gasglu tystiolaeth o ran trethi tirlenwi ac efallai y bydd ACC angen gallu gwneud yr un fath wrth gynnal ymchwiliadau a fydd yn cynorthwyo i ddod o hyd i unigolion. Mae'r tabl isod yn dangos y manylion penodol.

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2002 – ymchwilio i droseddau a rhwymedigaethau trethi sifil

Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
Gwyliadwriaeth gyfeiriedig	<p>Diffinnir gwyliadwriaeth fel gwyliadwriaeth gyfeiriedig pan fydd yn gudd ond nid yn ymwithiol – er enghraifft nid yw'n cynnwys cael mynediad i anheddiad neu gerbyd preifat – ac mae'n cael ei wneud at ddibenion ymchwiliad penodol neu weithrediad penodol, ac mae'n debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am unigolyn.</p> <p>Mae gwyliadwriaeth yn gudd os, a dim ond os, yw'n cael ei wneud mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw'r bobl sy'n cael eu gwyllo'n ymwybodol bod hynny'n digwydd.</p> <p>Gall gwyliadwriaeth gyfeiriedig helpu wrth ymchwilio i rwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Yn ogystal â defnyddio teledu cylch cyfyng, gallai hyn gynnwys swyddogion sy'n monitro ac yn cofnodi natur y gwastraff a waredir mewn safle tirlenwi, i ganfod faint o wastraff a waredir, a'i natur.</p> <p>Dylid nodi na ellir ei awdurdodi oni bai bod meini prawf penodol wedi'u bodloni, er enghraifft, bod yr unigolyn sy'n ei awdurdodi'n credu bod: angen ei awdurdodi am resymau penodol (er enghraifft, i ddibenion asesu neu gasglu trethi) a bod y gweithgarwch a awdurdodir yn gymesur â'r hyn y gobeithir ei gyflawni o ganlyniad i'r gweithgarwch (er enghraifft, cydbwysu difrifoldeb amharu ar breifatrwydd yn erbyn pwysigrwydd cael yr wybodaeth, ac a oes modd cael yr wybodaeth trwy ddulliau eraill).</p> <p>Bydd lefel yr awdurdodiad o fewn ACC yn cael ei bennu mewn unrhyw Orchymyn terfynol.</p>
<p>Cwestiwn 11</p> <p>Cynigir y dylai ACC gael pwerau i ymgymryd â gwaith goruchwyllo i atal a chanfod troseddau neu at ddibenion asesu neu gasglu trethi.</p>	

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2002 – ymchwilio i droseddau a rhwymedigaethau trethi sifil	
Pŵer	Diben a defnydd arfaethedig
Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC? Rhowch enghreifftiau.	
Ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol	<p>Ystyr ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol yw pan fydd unigolyn yn ffurfio neu'n cynnal perthynas bersonol neu berthynas arall ag unigolyn i ddibenion cudd i hwyluso gwneud unrhyw beth sy'n dod o fewn y paragraffau canlynol:</p> <p>(a) Maent yn defnyddio perthynas o'r fath mewn ffordd gudd i gael gwybodaeth, neu i roi mynediad i unrhyw wybodaeth i unigolyn arall;</p> <p>(b) Maent yn datgelu gwybodaeth yn gudd a gafwyd yn sgil perthynas o'r fath, neu o ganlyniad i fodolaeth perthynas o'r fath.</p> <p>Mae gwylidwriaeth o'r fath yn gudd os, a dim ond os, yw'n cael ei wneud mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw'r bobl sy'n cael eu gwylidwriaeth ymwybodol fod hynny'n digwydd.</p> <p>Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i ACC ofyn i unigolyn sydd â gwybodaeth i'w rhannu mewn cysylltiad â gweithred anghyfreithlon i gael rhagor o wybodaeth ar ran ACC, er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r unigolyn/sefydliad. Byddai hyn yn cael ei ystyried fel cudd-wybodaeth.</p>
Cwestiwn 12	
Dylai ACC gael pwerau i ddefnyddio ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol ar gyfer atal a chanfod troseddau neu ddibenion asesu neu gasglu trethi?	
Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC? Rhowch enghreifftiau.	

5 Mesurau Diogelu a Llywodraethu

- 5.1 Er mwyn diogelu'r cyhoedd ac osgoi camddefnyddio'r pwerau hyn, mae'r pedwar darn o ddeddfwriaeth yn datgan bod yn rhaid cael polisiau a gweithdrefnau clir i sicrhau nad ydynt yn cael eu camddefnyddio. Ar hyn o bryd, mae'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Lywodraeth Cymru ac i gyrff cyhoeddus eraill lle maent yn gallu defnyddio pwerau troseddol.
- 5.2 Byddai'r mesurau diogelu statudol hyn yn berthnasol i ACC a/neu unrhyw gyrff dirprwyedig y mae ACC yn eu defnyddio er mwyn rhoi'r pwerau hyn ar waith. Bydd unrhyw weithdrefnau mewnol yn fater i ACC.

Sicrhau bod staff ACC sy'n gyfrifol am ymchwiliadau yn ymchwilio troseddau'n ymwneud â threthi datganoledig yn briodol

- 5.3 Ni ellir defnyddio'r pwerau a geir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 oni bai bod rhai amodau penodol wedi'u cyflawni. Bydd yr ymchwilydd yn gyfrifol am ddangos i uwch swyddogion, ac mewn rhai achosion, barnwr neu ynad, bod yr amodau hyn wedi'u cyflawni. Os yw'r uwch swyddog, neu farnwr/ynad o'r farn nad yw'r amodau wedi'u cyflawni, ni ellir defnyddio'r pwerau. Ni chaiff staff arfer y pwerau hyn nes iddynt gael eu hyfforddi a'u hawdurdodi i wneud hynny.
- 5.4 Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 eisoes yn cynnwys nifer o fesurau diogelu statudol i sicrhau bod y pwerau hynny'n cael eu defnyddio mewn ffordd briodol a chymesur. Er enghraifft, mae defnyddio'r mwyafrif o'r pwerau yn y Ddeddf yn amodol ar drosolwg a chymeradwyaeth allanol – os rhoddir y pŵer i ACC i chwilio mangreoedd, ni chaiff wneud hynny oni bai ei fod wedi gwneud cais llwyddiannus am warant gan ynad. Yn ei dro, ni fydd ynad yn cyhoeddi gwarant oni bai ei fod yn fodlon bod yr amodau a geir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol wedi'u bodloni. Bydd deunydd penodol, fel eitemau a warchodir gan faint gyfreithiol a chofnodion meddygol, yn cadw'r haen ychwanegol honno o warchodaeth a geir gan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu ac felly dim ond yn ystod chwiliad a gymeradwywyd gan farnwr y gellir eu cymryd.
- 5.5 Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynhyrchu Codau Ymarfer ar ddefnyddio pwerau yn ystod ymchwiliad troseddol. Mae Adran 67 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw unigolyn sy'n cynnal ymchwiliad troseddol yn cydymffurfio â'r Codau Ymarfer hyn, a fydd yn

cynnwys ACC pan fydd yn ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig. Mae'r Codau Ymarfer yn rhan hanfodol o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r ffordd y mae ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal.

- 5.6 Yn ychwanegol at y mesurau diogelu statudol uchod, bydd angen i ACC ddatblygu pecyn o fesurau diogelu mewnol i sicrhau mai dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol y bydd pwerau'n cael eu defnyddio. Mater gweithredol i ACC fydd penderfynu ar y trefniadau hynny, a bydd yn cael ei lywio gan yr ymgynghoriad hwn. Fel isafswm, disgwylir y bydd gan ACC drefniadau ar waith i sicrhau mai dim ond y staff hynny sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol fydd yn gallu defnyddio'r pwerau hyn.
- 5.7 Bydd defnyddio'r pwerau hyn yn aml yn arwain at achosion troseddol yn erbyn unigolion sy'n gyfrifol am droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig. Mae'n hysbys na ellir dwyn erlyniad troseddol oni bod tystiolaeth ddigonol, eglur a derbyniol ar gael, a byddai unrhyw ddiffyg yn y ffordd y cafwyd y dystiolaeth yn tanseilio unrhyw erlyniad a fydd yn dilyn. Os yw'r unigolyn sy'n cael ei erlyn am drosedd yn ymwneud â threthi datganoledig yn teimlo bod y dystiolaeth wedi'i chael mewn ffordd annheg neu anghyfreithlon, mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn rhoi cyfle i'r unigolyn hwnnw wneud cais i'r llys i ddiystyru'r dystiolaeth honno yn yr achos troseddol.

Monitro defnydd cyrff cyhoeddus o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio

- 5.8 Mae Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio yn gyfrifol am adolygu gweithredu a pherfformiad y pwerau a roddir gan Ran II o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.
- 5.9 Caiff Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio ei harwain gan farnwr ac er bod y gyllideb yn cael ei hariannu gan y Swyddfa Gartref mae'n gwbl annibynnol ar y llywodraeth. Nod Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio yw rhoi trosolwg effeithiol dros ymddygiad gweithgareddau cudd gan awdurdodau cyhoeddus.
- 5.10 Mae'r Comisiynydd Arwylio'n ystyried adroddiadau a baratowyd gan ei arolygwyr arwylio yn dilyn arolygiadau o awdurdodau cyhoeddus ac mae'n ysgrifennu at brif swyddogion y sefydliadau hynny ynghylch y canfyddiadau a wnaethpwyd gan yr arolygiadau ac unrhyw argymhellion sy'n deillio ohonynt. Mae'r Prif Gomisiynydd Arwylio hefyd yn ysgrifennu adroddiad blynyddol i'r Prif Weinidog ar y materion y mae'n gyfrifol amdanynt.

Sicrhau bod staff yn defnyddio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn briodol

5.11 Bydd unigolion dynodedig o fewn ACC sy'n meddu ar y profiad a'r hyfforddiant priodol yn gallu awdurdodi'r defnydd o wylriadwriaeth gyfeiriedig a ffynhonnell gudd-wybodaeth ddynol yn unol â'r darpariaethau a amlinellir yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Dylid nodi na ellir caniatáu awdurdodiadau oni bai bod meini prawf penodol wedi'u bodloni, er enghraifft, pan fydd yr unigolyn sy'n caniatáu'r awdurdodiad yn credu:

- bod yr awdurdodiad yn angenrheidiol am resymau penodol (er enghraifft i ddiben asesu neu gasglu treth);
- bod y gweithgarwch a awdurdodir yn gymesur â'r hyn y gobeithir ei gyflawni ganddo (er enghraifft cydbwysu difrifoldeb amharu ar breifatrwydd a phwysigrwydd cael yr wybodaeth, ac a oes modd cael yr wybodaeth trwy ddulliau eraill).

5.12 Mae nifer o godau ymarfer perthnasol ar gael i gyfeirio atynt sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth ar gwmpas y pwerau, a'u hangenrheidrwydd a'u cymesuredd. Bydd yn ofynnol i ACC gydymffurfio â'r rhain wrth arfer y pwerau hyn.

5.13 Fel y nodwyd, bydd unrhyw awdurdodiad a ganiateir o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yn destun craffu gan Swyddfa'r Comisiynwyr Arwyllo yn annibynnol.

5.14 Bydd gan unigolyn sy'n destun gwylriadwriaeth gudd yr hawl i herio unrhyw dystiolaeth a ddefnyddir yn ei erbyn yn ystod erlyniad troseddol os yw'r unigolyn hwnnw'n credu bod y dystiolaeth wedi'i chael mewn ffordd annheg neu anghyfreithlon. Mae hwn yn fesur diogelu pellach sy'n sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu defnyddio mewn ffordd gywir a chymesur.

Mesurau diogelu yn erbyn camddefnyddio pwerau Deddf Enillion Troseddau 2002

5.15 Mae'r Ddeddf Enillion Troseddau yn cynnwys nifer sylweddol o fesurau diogelu statudol yn erbyn camddefnyddio'r pwerau. Dim ond pan fo'r amodau cymwys a amlinellir mewn deddfwriaeth wedi'u bodloni y gellir arfer y pwerau a geir yn Neddf Enillion Troseddau 2002 – er enghraifft,

dim ond os yw perchennog yr asedau hynny wedi ei gael yn euog o drosedd berthnasol y gellir atafaelu asedau, a bod barnwr Llys y Goron yn fodlon ei bod yn briodol i wneud hynny, ar ôl dod i'r casgliad (ymhlith pethau eraill) bod y diffynnydd wedi bod yn dilyn ffordd o fyw droseddol neu ei fod wedi elwa ar ymddygiad troseddol.

5.16 Dim ond os bydd yn penodi ymchwilydd ariannol y gall ACC arfer y pŵer i wneud cais am orchymyn o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002, sydd wedi'i achredu i arfer y pwerau hyn gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod yr unigolyn sy'n arfer y pwerau hyn wedi cael yr un hyfforddiant â phob asiantaeth arall sy'n gorfodi'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr.

Cwynion am ACC a/neu swyddogion o gyrff dirprwyol

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn craffu'n annibynnol ar gwynion a wneir yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru, a fydd hefyd yn cynnwys ACC. Yn gyntaf, gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno cwynion yn uniongyrchol i ACC. Bydd ein dull gweithredu'n cysoni hyn â phrosesau cwyno presennol yng Nghymru. Mewn perthynas â Chyllid a Thollau EM, yn yr un modd mae'n rhaid cyflwyno'r gŵyn i Gyllid a Thollau EM yn gyntaf. Mae'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn craffu'n annibynnol ar gwynion yn erbyn adrannau o lywodraeth y DU a sefydliadau cyhoeddus. Fodd bynnag, ni all yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd ymchwilio oni bai bod y gŵyn sydd wedi'i chyflwyno wedi'i llofnodi gan unrhyw Aelod sy'n eistedd yn y Senedd.

Cwestiwn 13

Yn ychwanegol at y mesurau diogelu presennol sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth ar gyfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol/ Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio / Deddf Enillion Troseddau/ Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu, pa fesurau diogelu mewnol eraill ddylai ACC eu hystyried i sicrhau bod pwerau i ymchwilio i droseddau yn cael eu harfer yn briodol?

6 Atodiad A

Mae'r atodiad hwn yn rhoi darlun o rai o'r pwerau y gallai ACC gael mynediad atynt, yn seiliedig ar y cynigion a nodir uchod. Bydd y penderfyniad i wneud is-ddeddfwriaeth mewn i ddarparu pwerau troseddol ACC yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru maes o law, gydag ystyriaeth polisi Llywodraeth Cymru ac ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth yn cael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yna bydd ACC yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch sut y mae'n defnyddio unrhyw un o'r pwerau a ddarperir.

Deddf	Sylwebaeth	Darpariaeth a gynigir at ddefnydd ACC	Adrannau perthnasol a gynigir at ddefnydd ACC
<p>Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984</p>	<p>Mae Adran 8 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn cynnwys (yn amodol ar yr amodau perthnasol a nodir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984) pŵer i ynad heddwch i awdurdodi mynediad a chwilio mangre, ar ôl cael cais gan swyddog.</p> <p>Mae adrannau 9 i 16 yn cynnwys darpariaeth fanwl, gan gynnwys mesurau diogelu a darpariaethau arbennig i gael mynediad at eitemau sy'n dod o dan fraint gyfreithiol, deunydd wedi'i eithrio neu ddeunydd gweithdrefn arbennig, a fyddai'n berthnasol ochr yn ochr ag unrhyw bwerau. Mae adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn galluogi swyddog sydd mewn unrhyw fangre'n gyfreithlon (gan gynnwys pan fyddant yn arfer pŵer mynediad a chwilio) i gymryd unrhyw eitem y mae'n rhesymol iddynt gredu sy'n dystiolaeth gysylltiedig â throedd, a bod angen ei gymryd i'w atal rhag cael ei guddio, ei golli, ei ddinistrio ac yn y blaen. Mae adrannau 20 i 22 yn gwneud darpariaeth fwy manwl ynglŷn â chymryd, gan gynnwys sicrhau bod modd cymryd gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiaduron, a galluogi cadw gwrthrychau at ddibenion ymchwiliadau</p>	<p>Mynediad, Chwilio a Chymryd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhan 2 Pwerau Mynediad, Chwilio a Chymryd: <i>Gwarantau Chwilio</i>; 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16 • <i>Cymryd</i>: 19, 20, 21, 22 • Rhan 11 Amrywiol ac Atodol: 117

troseddol.

O dan adran 117 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol caniateir i swyddogion yr heddlu ddefnyddio grym rhesymol i arfer unrhyw bŵer o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol os oes angen, gan gynnwys unrhyw fynediad, chwilio neu gymryd.

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

Mae adrannau 66 a 67 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol i gynhyrchu [codau ymarfer](#) mewn cysylltiad ag arfer y pwerau statudol drwy unigolion sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau. Pan fydd ACC yn ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig, bydd y Codau Ymarfer yn cael eu gweithredu'n awtomatig.

[Codau Ymarfer](#)

- Rhan 6 Codau Ymarfer – Cyffredinol: [66](#), [67](#)

Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001

Mae adrannau 50 a 51 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu yn ymestyn cwmpas y pwerau cymryd yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 fel bod modd cymryd eiddo a ganfyddir yn y mangreoedd lle nad yw'n rhesymol ymarferol i gwblhau proses o archwilio, chwilio neu wahanu yno.

[Pwerau Cymryd](#)

- Rhan 2 Pwerau Cymryd: *Pwerau Cymryd Ychwanegol*:[50](#), [51](#)
- *Gwneud cais i'r awdurdod barnwrol priodol*:[59](#)

Deddf Enillion Troseddau 2002

Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn darparu (yn amodol ar yr amodau statudol perthnasol a nodir yn y Ddeddf) amrywiol bwerau i "Ymchwiliwyr Ariannol Achredig" mewn cysylltiad ag ymchwiliadau

Gorchmynion atal

- [Adran 41A](#)

Gorchmynion atal:

- [Adran 42](#)

atafaelau ac ymchwiliadau i arian parod a gedwir. Cynigir bod ACC yn defnyddio ymchwilwyr ariannol achredig i gynnal ymchwiliadau i arian parod a gedwir ac ymchwiliadau atafaelu. Yn benodol, gallai ymchwilwyr ariannol achredig wneud cais am orchymyn atal. Er mwyn cael mynediad at y pwerau hyn sydd yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, mae'n rhaid i'r ymchwilwyr ariannol achredig sy'n gweithio i ACC gael eu dynodi drwy Orchymyn, sef Gorchymyn gan Weinidogion Cymru yn achos ACC.

pŵer i gadw eiddo wedi'i gymryd

Gorchymynion atal:
Pŵer i gymryd eiddo

Gorchymynion atal:
Pwerau chwilio

- [Adran 47C](#)

(DS: cafodd yr adran hon ei hychwanegu i'r Ddeddf drwy adran 55 o Ddeddf Heddlu a Throsedd 2009, ac felly darperir dolen ar gyfer y Ddeddf honno)

- [Adrannau 47D i 47F](#)

(DS: cafodd yr adran hon ei hychwanegu i'r Ddeddf drwy adran 55 o Ddeddf Heddlu a Throsedd 2009, ac felly darperir dolen ar gyfer y Ddeddf honno)

Cynigir y dylai ymchwilwyr ariannol achredig ACC, wrth gynnal ymchwiliadau atafaelu ac ymchwiliadau i arian parod a gedwir, gael y pŵer i wneud cais i'r llysoedd am amrywiaeth o orchymynion o dan Ran 8 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (er enghraifft gorchymynion cynhyrchu neu warant chwilio a chymryd) i

Gorchymynion
cynhyrchu

Gwarantau chwilio a

- [Adran 345](#)
- [Adran 352](#)
- [Adran 363](#)

gynorthwyo'r ymchwiliad.

chymryd

Gorchmynion
gwybodaeth
cwsmeriaid (ni ellir eu
gwneud mewn
perthynas ag
ymchwiliadau i arian
parod a gedwir)

- [Adran 370](#)

Gorchmynion monitro
cyfrifon (ni ellir eu
gwneud mewn
perthynas ag
ymchwiliadau i arian
parod a gedwir)

Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn galluogi ymchwilwyr ariannol achredig (yn amodol ar gymeradwyaeth berthnasol o dan adran 290) sydd mewn mangre'n gyfreithlon, i chwilio am arian parod yn y fangre pan fo lle i gredu bod yr arian parod wedi'i gael yn anghyfreithlon neu ei fod at ddibenion anghyfreithlon, a'i fod dros yr isafswm (£1,000 ar hyn o bryd). Mae

Chwilio

- [Adran 289](#)
- [Adran 294](#)
- [Adran 295](#)

Cymryd yr arian parod

Cadw'r arian parod

	rhagor o bwerau yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 sy'n caniatáu i ymchwilwyr ariannol achredig gymryd a chadw unrhyw arian parod a ganfyddir yn ystod y chwiliad.	sydd wedi'i gymryd	
Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000	Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n rhagnodi'r unigolion sy'n arfer swyddogaethau ACC ac sy'n gallu caniatáu awdurdodiadau ar gyfer gwylidwriaeth gyfeiriedig a defnyddio ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol o dan y pwerau a geir yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Diffinnir gwylidwriaeth fel gwylidwriaeth gyfeiriedig pan fydd yn gudd ond nid yn ymwithiol – er enghraifft nid yw'n cynnwys cael mynediad i anheddiad neu gerbyd preifat – ac mae'n cael ei wneud i ddibenion ymchwiliad penodol, ac yn debygol o sicrhau gwybodaeth breifat am unigolyn.	Gwylidwriaeth Gyfeiriedig	<ul style="list-style-type: none"> Adran 28
Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000	Ystyr ffynonellau cudd-wybodaeth yw pan fydd unigolyn yn ffurfio neu'n cynnal perthynas bersonol neu berthynas arall ag unigolyn arall at ddibenion cudd i hwyluso gwneud unrhyw beth sy'n cael ei gynnwys yn y paragraffau canlynol: (a) Maent yn defnyddio perthynas o'r fath mewn ffordd gudd i gael gwybodaeth, neu i roi mynediad i unrhyw	Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol	<ul style="list-style-type: none"> Adran 29

wybodaeth i unigolyn arall;

(b) Maent yn datgelu gwybodaeth yn gudd a gafwyd yn sgil perthynas o'r fath, neu o ganlyniad i fodolaeth perthynas o'r fath.

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Pwerau troseddol i ymchwilio i droseddau treth ddatganoledig

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai pwerau troseddol fod ar gael i fynd i'r afael â throseddau'n ymwneud â threthi datganoledig?

Rhowch resymau dros eich ateb a rhannu sylwadau sydd gennych chi.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau trethi datganoledig?

Rhowch resymau dros eich ateb a rhannu sylwadau sydd gennych chi.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu y dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron erlyn troseddau'n ymwneud â threthi datganoledig er mwyn bod yn gyson â Chyllid a Thollau EM? Neu a ddylai hyn gael ei wneud gan Awdurdod Cyllid Cymru?

Rhowch resymau dros eich ateb a rhannu sylwadau sydd gennych chi.

Manylion y pwerau troseddol

Cwestiwn 4: Cynigir na ddylid rhoi pwerau stopio a chwilio i ACC o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i gynnal ymchwiliadau troseddol mewn perthynas ag ymchwiliadau i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig.

Beth yw manteision neu anfanteision peidio â rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau.

Cwestiwn 5: Cynigir bod swyddogion ACC yn cael y pŵer i wneud cais i ynad heddwch am warant i gael mynediad, i chwilio a chymryd eitemau o fangreoedd neu chwilio unigolion a ganfuwyd yn y mangreoedd hynny wrth ymchwilio i droseddau'n ymwneud â threthi datganoledig. Bydd hyn yn cynnwys y pŵer i ddefnyddio grym rhesymol pan fo angen i arfer y swyddogaeth honno.

Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau.

Cwestiwn 6: Cynigir nad yw ACC yn cael pwerau i arestio, cadw na holi unigolion fel rhan o ymchwiliad troseddol.

Beth yw manteision neu anfanteision peidio â rhoi'r pwerau hyn i ACC? Rhowch enghreifftiau.

Cwestiwn 7: A ddylai ACC ddatblygu mesurau/canllawiau diogelu ychwanegol i arfer y pwerau hyn? Rhowch enghreifftiau.

Cwestiwn 8: Cynigir bod ACC yn cael pwerau estynedig o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu i gynyddu'r pwerau sydd ar gael iddo eisoes o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (os cymerir y pwerau hyn).

Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau.

Cwestiwn 9: A ddylid rhoi unrhyw bŵer ychwanegol o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984/ Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i ACC? Os felly, rhowch enghreifftiau.

Cwestiwn 10: Cynigir bod staff ACC yn cael eu henwi fel AFI at ddibenion arfer pwerau amrywiol POCA wrth atafaelu neu ymchwilio i arian parod a gedwir. Cynigir hefyd y gall AFI ACC hefyd wneud cais am orchmynion atal ac arfer pwerau cysylltiedig.

Beth yw manteision ac anfanteision yr uchod?

Rhowch enghreifftiau.

Cwestiwn 11: Cynigir y dylai ACC gael pwerau i ymgymryd â gwaith goruchwyllo i atal a chanfod troseddau neu at ddibenion asesu neu gasglu trethi.

Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau.

Cwestiwn 12: Dylai ACC gael pwerau i ddefnyddio ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol ar gyfer atal a chanfod troseddau neu ddibenion asesu neu gasglu trethi?

Beth yw manteision neu anfanteision rhoi'r pwerau hyn i ACC?

Rhowch enghreifftiau.

Mesurau Diogelu a Llywodraethu

Cwestiwn 13: Yn ychwanegol at y mesurau diogelu presennol sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth ar gyfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol/ Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio / Deddf Enillion Troseddau/ Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu, pa fesurau diogelu mewnol eraill ddylai ACC eu hystyried i sicrhau bod pwerau ymchwiliadau troseddol yn cael eu harfer yn briodol?